Odyna y kerdaŵd racdaŵ y lys arthur . Ac ar y fford y kyfaruu ac ef teulu arthur a chei yn y blaen yn mynet y neges vdunt . Peredur a atwaenat paŵb o nadunt . Ac nyt atwaenat neb o'r teulu efo . 'Pan doy ti vnben' heb y kei . A dŵy weith a their | Ac nyt attebei ef . y wan a oruc kei a gŵayŵ trŵy y vordŵyt . A rac kymell arnaŵ dywedut a thorri y gret . mynet heibaŵ a oruc heb ymdiala ac ef . Ac yna y dywaŵt gŵalchmei . 'yprofi a duŵ gei . drŵc y medreist kyflauanu ar vaccŵy val hŵn yr na allei dywedut' . Ac ymhoelut tra|gefyfyn y lys arthur . 'Arglŵydes' heb ef ŵrth wenhŵyfar 'a weldy dryccet y gyflafan a oruc kei ar y maccŵy hŵnn yr na allei dywedut . Ac yr duŵ ac yprofi par y vedeginyaethu erbyn vyn dyfot tra|chefyfn . A mi a talaf y bŵyth it' . A
620 chyn dyuot y gŵyr oc eu neges ; ef a deuth marchaŵc y'r weirglaŵd y emyl llys arthur y erchi gŵr y ymwan . A hynny a gafas . A bŵrŵ hŵnnŵ a w[n]aeth . Ac ŵythnos y bu yn bŵrŵ marchaŵc beunyd .

A diwarnaŵt yd oed arthur a'e teulu yn dyfot y'r eglŵys . Sef y gŵelynt y marchaŵc gŵedy drychafel arŵyd ymwan | 'Haŵyr' heb yr
630 arthur 'myn gŵrhyt gŵyr nyt af odyma hyny gaffŵyf vy march a'm harueu y uŵrŵ y iaghŵr racco' . Yna yd aeth gŵeisson yn [151] ol y varch a'e arueu y arthur . A pheredur a gyfaruu a'r gŵeisson yn mynet heibaŵ . Ac a gymerth y march a'r arueu . a'r weirglaŵd a gyrchŵys . Sef a wnaeth paŵb o[e] welet ef yn kyfodi ac yn mynet y ymwan y'r
635 marchaŵc . mynet ar pen y tei a'r brynneu a lle aruchel y edrych ar yr ymwan . Sef a wnaeth peredur emneidaŵ a'e laŵ ar y marchaŵc y erchi idaŵ dechreu arnaŵ . A'r marchaŵc a ossodes arnaŵ . Ac nyt ysgoges ef o'r lle yr hynny . Ac ynteu peredur a ordinaŵd y varch ac a'e kyrchaŵd yn llityaŵcdrut engiryaŵlch[ŵ]erŵ awydualch . Ac a'e gŵant dymaŵt
640 gŵenŵyniclym tostdrut milŵreidffyrif y dan y dŵyen ac y drechefis o'e

gyfróy . ac y byryaðd ergyt maþr y þrthaþ . ac yd ymchoelaþd
 tra|chefyn ac yd edewis y march a'r arueu gan y gþeisson mal kynt . Ac
 ynteu ar y troet a gyrchaþd y llys . A'r mackþy mut y gelwit peredur
 yna . Nachaf agharat laþeuraþc yn kyfaruot ac ef . 'yprofi a duþ vnben ·
 645 oed glyssyn na allut dywedut . A pheu gallut dywedut mi a'th garþn yn
 uþyhaf gþr . Ac myn vvg cret kyn nys gellych . mi a'th garaf yn
 uþyhaf' . 'Duþ a talho it vy chwaer . myn vvg cret minheu a'th garaf ti'
 . Ac yna y gþybuþyt mae peredur oed ef . Ac yna y delis ef
 gedyndeithas a gþalchmei ac [152] ac owein vab vryen ac a phaþb o'r
 650 teulu . ac y trigyþys yn llys arthur .

Arthur a oed ygkaer llion ar þysc . A mynet a wnaeth y hela . A
 Aperedur gyt ac ef . A pheredur a ellygaþd y gi ar hyd . A'r ki a
 ladaþd yr hyd myþn diffeithþch . Ac ympen ruthur y | þrthaþ ef a welei
 arþyd kyfanhed . A thu a'r kyfanhed y death . ac ef a welei neuad . ac
 655 ar y drþs y neuad ef a welei tri gweis moel gethinyon yn gþare
 gþydbþyll . A phan death ymyþn . ef a welei teir morþyn yn eisted ar
 leithic . ac eurwiscoed ymdanunt mal y dyliei am dylwedogyon . ac ef
 a aeth y eisted attunt y'r lleithic . ac vn o'r morynyon a edrychaþd ar
 peredur yn graff . ac þylaþ a wnaeth . A peredur a ofynnaþd idi beth a
 660 þylei . 'Rac drycctet genhyf gþelet lleassu gþas kyn deccet a thi' . 'Pþy
 a'm lleassei i' . 'pei na bei hyt it arhos yn y lle hþn ; mi a'e dywedþn
 it' . 'Yr meint uo y gþrthret arnaf yn arhos mi a'e gþarandaþaf' . 'Y gþr
 yssyd tat inni bieu y llys hon . A hþnnþ a lad paþb o'r a del y'r llys hon
 heb y ganhat' . 'Py gyfryþ þr yþ aþch tat chwi pan allo lleassu paþb
 665 uelly' . 'Gþr a wna treis ac anuod ar y gymodogyon . ac ny wna iaþn y
 neb ymdanaþ' | ac yna y gþelei ef y gþeisson yn kyfodi ac yn arllþyssaþ
 y claþr o'r werin | ac ef a glywei tþrþf maþr . ac yn ol y tþrþf ef a welei
 þr du maþr vn|llygeityaþc yn dyfot ymyþn . A'r mo[153]rynyon a
 gyfodassant yn y erbyn a diot y wisc y amdanaþ a wnaethant . ac
 670 ynteu a aeth y eisted . A gþedy dyfot y bþyll idaþ ac arafhau edrych a
 oruc ar peredur . A gofyn pþy y marchaþc . 'Arglþyd' heb yr hitheu . 'y
 gþas teccaf a bonhedigeidaf o'r a welest eiroet . ac yr duþ ac yr dy
 syberwyt pþylla þrthaþ' . 'Yrot ti mi a bþyllaf ac a rodaf y eneit idaþ
 heno' . ac yna peredur a doeth attunt þrth y tan . ac a gymerth bþyt a
 675 llyn ac ymdidan a rianed a oruc . ac yna y dywaþt peredur gþedy y
 urþyscaþ . 'Ryfed yþ genhyf kadarnet y dywedy ti dy vot ; pþy a diodes
 dy lygat' . 'vn o'm kynedueu oed . Pþy bynnac a ofynhei imi yr hyn yd
 þyt ti yn y ofyn . ny chaffeï y eneit genhyf nac yn rat nac ar werth' .
 'Arglþyd' heb y uorþyn 'kyt dywetto efo ofered a brþysked a meddaþt
 680 parthret ac attat ti . kyþira y geir a dywedesti gynheu ac a edeweist

órthyfi' . 'A minheu a wnaŷ hynny yn llawen yrot ti . Mi a ataf y eneit idaŷ yn llawen heno' . Ac ar hynny y trigyassant y nos honno .

A thranoeth kyfodi a oruc y gŵr du . A gŵiscaŷ arueu ymdanaŷ . Ac erchi y peredur . 'kyfot dyn y vnyd y diodef agheu' heb y gŵr du .
 685 Peredur a dywaŷt wrth y gŵr du 'Gŵna y neill peth y gŵr du . os ymlad a vynny a mi . Ae diost dy arueu y ymdanat . Ae titheu a ro[154]dych arueu ereill im y ymlad a thi' . 'Ha dyn' heb ef . 'ae ymlad a allut ti pei kaffut arueu . kymer yr arueu a vynnych' . Ac ar hynny y deuth y uorŷyn ac arueu y peredur . a oed hoff ganthaŷ . Ac ymlad a wnaeth
 690 efo a'r gŵr du ; hyny uu reit y'r gŵr du erchi naŷd y peredur . 'y gŵr du ti a geffy naŷd tra uych yn dywedut im pŷy ŷyt a phŷy a tynnaŷd dy lygat' . 'Arglŷyd minheu a'e dywedaf . Yn ymlad a'r pryf du o'r garn . cruc yssyd a elwir y cruc galarus . ac yn y cruc y mae carn . Ac yn y garn y mae pryf . Ac yn lloŷcŷrn y pryf y mae maen . A rinwedeu y
 695 maen ynt . Pŷy bynnac a'e kaffei yn y neill laŷ ; a uynnei o eur ef a'e kaffei a'r llaŷ arall idaŷ . Ac yn ymlad a'r pryf hŷnnŷ y colleis i vy llygad . A'm henŷ inheu yŷ y du trahaŷc . Sef achaŷs y'm gelwit y du trahaŷc . nyt adŷn vn dyn y'm kylch nys treissŷn . A iaŷn nys gŷnaŷn y neb' . 'Je' heb y peredur 'py gybellet odyma yŷ y cruc a dywedy ti' .
 700 'Mi a rifaf yt ymdeitheu hyt yno . ac a dywedaf it py gybellet yŷ . Y dyd y kychwynnych odyma ti a doy y lys meibon y brenhin y diodeifeint' . 'Py ham y gelwir ŷy uelly' . 'Adanc llyn a'e llad vn weith beuny d . Pan elych odyno ti a deuy hyt yn llys iarlls y kampeu' . 'Py gampeu yssyd erni hi' . 'Trychanhŷr teulu yssyd idi . pob gŵr
 705 dieithyr a del y'r llys ef a dywedir [155] idaŷ kampeu y theulu . Sef achaŷs yŷ hynny y tri chanhŷr teulu a eisted yn nessaf y'r arglŷydes . Ac nyt yr amharch y'r gŷesteion . namyn yr dywedut campeu y theulu . Y nos y kychwynych odyno ti a ey hyt y cruc galarus . Ac yno y maent perchen trychant pebyll yg kylch y cruc yn kadŷ y pryf' . 'Can buost ormes yn gyhyt a hynny : mi a wnaŷ na bych byth bellach' . A'e lad a wnaeth peredur idaŷ . Ac yna y dywaŷt y vorŷyn a dechreussei ymdidan ac ef . 'bei bydut tlaŷt yn dyfot yma ; kyfoethaŷc uydut bellach o tressor y gŵr du a ledeist . A thi a wely y saŷl vorynyon hygar yssyd yn y llys hon . ti a gaffut orderchat ar yr vn y mynhut' . 'Ny deuthum i o'm gŷlat
 715 arglŷydes yr gŷreicca . namyn gŷeisson hygar a welaf yna . ymgyffelybet paŷb o honaŷch a'e gilyd mal y mynho . A dim oc aŷch da nys mynnaf . ac nyt reit im ŷrthaŷ' .

Odyno y kychŷynnaŷd peredur racdaŷ . Ac y doeth y lys meibon brenhin y diodeifeint . A phan deuth y'r llys ny welei namyn gŷraged . A'r
 720 gŷraged a gyfodes racdaŷ ac a uuont lawen ŷrthaŷ . Ac ar dechreu eu

hymdidan . ef a welei varch yn dyfot a chyfróy arnaó a chelein yn y
 kyfróy . Ac vn o'r góraged a gyfodes y uynyd ac a gymerth y gelein o'r
 kyfróy . ac a'e heneinaó d ymyón keróyn oed is [156] laó y drós a dófyf
 tóym yndi . Ac a dodes eli góerthuaó arnaó . A'r gó a gyfodes yn uyó .
 725 ac a deuth yn yd oed peredur a'e raessaó a oruc a bot yn llawen órthaó
 . A deu ór ereill a doethant y myón yn eu kyfróyau . A'r vn diwygyat a
 wnaeth y voróyn y'r deu hynny ac y'r vn gynt . Yna y gofy|naó peredur
 y'r vnben pyham yd oedynt uelly . Ac óynteu a dywedassant vot adanc
 ymyón gogof . A hónnó a ladei óy peuny d . Ac ar hynny y trigyassant y
 730 nos honno .

A thranoeth y kyfodes y maccóyaid racdunt . Ac yd erchis peredur
 yr móyn eu gordercheu y adel gyt ac óynt . óynt a'e gomedassant . 'Pei
 lledit ti yno ; nyt oed it a'th wnelei yn uyó drachefyn' . Ac yna y
 kerdassant óy racdunt . ac y kerdaó peredur yn eu hol . A góedy eu
 735 diflannu hyt nas góelei . Ac yna y kyfaruu ac ef yn eisted ar ben cruc ; y
 wreic teccaf o'r a welsei eiroet . 'Mi a ón dy hynt . mynet yd óyt y
 ymlad a'r adanc ac ef a'th lad . Ac nyt o'e deóred namyn o ystryó .
 Gogof yssyd idaó . A philer maen yssyd ar drós yr ogof . ac ef a wyl
 paó b o'r a del y myón . ac nys góyl neb efo . ac a llechwayó góenóynic
 740 o gyscaó y piler y llad ef baó b . A phei rodot ti dy gret vyc caru yn
 vóyhaf góreic mi a rodón it vaen val y góelut ti efo pan elut ymyón | Ac
 ny welei ef tydi' . 'Rodaf myn vyc cret' heb y peredur 'yr pan yth
 [157] weleis gyntaf . mi a'th gereis . A phy le y keissón i tydi' . 'Pan
 geissych ti viui ; keis parth a'r india' . Ac yna y diffllannóys y voróyn
 745 ymdeith góedy rodi y maen yn llaó peredur .

Ac ynteu a doeth racdaó parth a dyffryn auon . A gororeu y
 dyffryn oed yn goet . ac o pop parth y'r auon yn weirglodeu góastat . ac
 o'r neill parth y'r afon y góelei kadó o defeit góynnyon . ac o'r parth
 arall y góelei kadó o defeit duon . ac val y brefei vn o'r defeit góynnyon
 750 . y deuei vn o'r defeit duon dróod ac y bydei yn wen . ac val y brefei
 vn o'r defeit duon ; y deuei vn o'r defeit góynnyon dróod ac y bydei du
 . A phren hir a welei ar lan yr afon . A'r neill hanher oed idaó yn llosci
 o'r góreid hyt y vlaen . A'r hanher arall a deil ir arnaó . ac uch llaó hynny
 y góelei mackóy yn eisted ar pen cruc a deu vilgi vronwynyon vrychyon
 755 myón kynllyfan yn gorwed ger y laó . A diheu oed ganthaó na welsei
 eiroet maccóy kyteyrneidet ac ef . ac yn y coet gyfaróyneb ac ef y
 clywei ellgón yn kyfodi hydgant . A chyfarch góell a wnaeth y'r
 maccóy . A'r maccóy a gyfarchaó well y peredur . A their fford a welei
 peredur yn mynet y órth y cruc . y dóyfford yn vaó . A'r tryded yn llei .
 760 A gofyn a oruc peredur py le yd aei y teir fford . 'vn o'r ffyrd hyn a a

- y'm llys i . Ac vn o'r deu a gyghoraf i itti ae mynet [158] y'r llys o'r blaen at vylg gŵreic i yssyd yno ae titheu a arhoych yma a thi a wely y gellgŵn yn kymell yr hydod blin o'r coet y'r maes . A thi a wely y milgŵn goreu a weleist eiroet a gleŵhaf ar hydod yn y llad ar y dŵfyr ger an llaŵ .
- 765 A phan vo amser in mynet y'n bŵyt ; ef a daŵ vylg was a'm march y'm herbyn . A thi a geffy lewenyd yno heno' . 'Duŵ a talho it . ny thrigyaŵ namyn ragof yd af' . 'Yr eil fford a a y'r dinas yssyd yna yn agos . Ac yn hŵnnŵ y keffir bŵyt a llyn ar werth . A'r fford yssyd lei no'r rei ereill a a parth a gogof yr adanc' . 'gan dy ganhat vaccŵy parth ac yno yd afi' .
- 770 A dyfot a wnaeth peredur parth a'r ogof . A chymryt y maen yn y llaŵ asseu . A'e wayŵ yn y llaŵ deheu . Ac val y daŵ ymyŵn . Arganuot yr adanc a wnaeth a'e wan a gŵayŵ trŵydaŵ . A llad y penn . A phan daŵ ymaes o'r ogof . nachaf yn drŵs yr ogof y tri chetyndeith . A chyfarch gŵell a wnaethant y peredur . A dywedyt pan yŵ idaŵ yd oed darogan
- 775 llad yr ormes honno . A rodi y pen a wnaeth peredur y'r maccŵyeit . A chynnic a wnaethant ŵynteu idaŵ yr vn a dewissei o'e teir chwiorod yn briaŵt a hanher eu brenhinyaeth y gyt a hi . 'Ny deuthum i yma yr gŵreicca . A pheŵ mynhŵn vn wreic | ac atuyd aŵch whaer chŵi a vynnŵn yn gyntaf' .
- 780 A cherdet racdaŵ a wnaeth[h] [159] peredur ; ac ef a glywei tŵrŵf yn y ol . ac edrych a wnaeth ef yn y ol . ac ef a welei gŵr ar geffyn march coch ac arueu cochyon ymdanaŵ . A'r gŵr a doeth ar ogyfuch ac ef . a chyfarch gŵell a wnaeth y peredur o duŵ ac o dyn . ac ynteu peredur a gyfarchaŵd gŵell y'r maccŵy yn garedic . 'Arglŵyd dyuot y erchi itti yd ŵyfi' . 'Beth a erchy ti' heb y peredur . 'vylg kymryt yn ŵr itt' . 'Pŵy a gymerŵn inheu yn ŵr bei as kymerŵn' . 'Ny chelaf vylg kystlŵn ragot . Etlym gledyf coch y'm gelŵir . iarll o ystlys y dŵyrein' . 'Ryfed yŵ genhyfi ymgynnic ohonaŵt yn ŵr y ŵr ny bo mŵy y gyfoeth no thi . nyt oes iminheu namyn iarllaeth arall . A chanys gŵiŵ genhyt dyfot yn ŵr imi . mi a'th gymeraf yn
- 790 llawen' . ac y doethant parth a llys yr iarlls . A llawen uuŵyt ŵrthunt yn y llys . A dywedut ŵrthunt a wnaethpŵyt . nat yr amharch arnunt y dodit is llaŵ y teulu ; namyn kynnedyf y llys a oed y velly . kanys y neb a uyrrei y thrychanhŵr teulu hi ; bŵyta a gaffeŵ yn nessaf idi a hi a'e karei ef yn uŵyhaf gŵr . A gŵedy y bŵrŵ o peredur . y thrychanhŵr teulu y'r llaŵr . ac
- 795 eisted ar y neill laŵ . 'Y diolchaf y duŵ kaffes gŵas kyn deccet a chyn deŵret a thi . kany chefeis [160] y gŵr mŵyhaf a garŵn' . 'Pŵy oed y gŵr mŵyhaf a garut titheu' . 'Myn vylg cret etlym gledyf coch oed y gŵr mŵyhaf a garŵn i . ac nys gŵeŵeis eiroet' . 'Dioer' heb ef 'ketyndeith imi yŵetlym . A llyma efo . ac yr y uŵyn ef y deuthum i y whare a'th teulu . ac ef a'e
- 800 galleŵ yn well no mi bei as mynhei . A minheu a'th rodaf titheu idaŵ ef' .

'Duó a diolcho ititheu vaccóy tec . a minheu a gymerhaf y górh móyhaf a garaf' . A'r nos honno kyscu a wnaeth etlym a'r iarllles ygyt .

- 805 A thranoeth kychwynnu a wnaeth peredur parth a'r cruc galarus . 'Myn dy laó ti arglóyd mi a af y gyt a thi' . heb yr etlym . óynt a doethant raddunt hyt y lle y góelynt y cruc a'r pebylleu . 'Dos' heb y peredur 'at y góyr racco' órth etlym . 'Ac arch udunt dyfot y órhau imi' . ef a deuth etlym attunt . Ac a dywaót val hyn . 'Doóch y órha y'm harlóyd i' . 'Póy yó dy arglóyd ti' heb yr óynt . 'Peredur baladyr hir yó fy arglóyd i' heb yr etlym .
- 810 'Pei dilyetus difetha kennat nyt aut ti trachefyn yn vyó at dy arglóyd ; am erchi arch mor trahaus y vrenhined a ieirll a baróneit a dyfot y órhau y'th arglóyd ti' . Etlym a deuth traygefyn at peredur . Peredur a erchis idaó vynet traegefyn attunt y rodi dewis vdunt ae górhau [161] idaó ae ymwan ac ef . óynt a dewissyssant ymwan ac ef . A pheredur a uyryaódd perchen cant pebyll y dyd hónnó y'r llaórh . A thranoeth ef a uyryaódd perchen cant ereill y'r llaórh . A'r trydyd cant a gaóssant yn eu kyghor górhau y peredur . A pheredur a ofynaódd udunt . beth a wneynt yno . Ac óynt a dewedassant pan yó góarchadó y pryf hyny vei varó . 'Ac yna ymlad a wnaem ninheu am y maen . A'r neb a uei trechaf o'honam a gaffei y maen' . 'Aroóch vi
- 820 yma . mi a af y ymwelet a'r pryf' . 'Nac ef arglóyd' heb óynt 'aón ygyt y ymlad a'r pryf' . 'Je' heb y peredur 'ny mynnaf i hynny ; pei lledit y pryf ny chaón i o glot móy noc vn ohonaóch chwitheu' . A mynet a wnaeth y'r lle yd oed y pryf a'e lad ; a dyfot attunt óynteu . 'kyfrifóch aóch treul yr pan doethoch yma | A mi a'e talaf ióch ar eur' heb y peredur . Ef a dalaódd udunt kymeint ac a dywaót paó y dylu ohonaó . Ac nyt erchis dim udunt eithyr adef eu bot yn wyr idaó . Ac ef a dywaót órth etlym 'at y wreic uóyhaf a gery yd ey ti . A minheu a af ragof . Ac a dalaf it dyfot yn ór im' . Ac yna y rodes ef y maen y etlym . 'Duó a talho it ha róydheyt duó ragot' .
- 830 Ac ymdeith yd aeth peredur . Ac ef a deuth y dyffryn afon teccaf a welsei eiroet . A llawer o pebylleu amlió a welei yno . A ryfedach ganthaó no hynny góelet y saól a welei o velineu ar dófyr a melineu góynt . Ef a gyhyrdaódd ac ef górh góineu maórh a góeith saer arnaó . A gofyn póy oed a oruc peredur . 'Pen melinyd óyfi ar y melineu racco oll' . 'A gaffafi lety genhyt ti' heb [162] y peredur . 'keffy' heb ynteu 'yn llawen' . Ef a deuth y ty y melinyd ac ef a welas llety hoff tec y'r melinyd . Ac erchi a wnaeth peredur aryant yn echóyn y'r melinyd y brynu bóyt a llyn idaó ac y tylóyth y ty . Ac ynteu a talei idaó kyn y vynet odyno . Gofyn a oruc y'r melinyd py achaós yd oed y dygyfor
- 840 hónnó . Y dywaót y melinyd órth peredur . 'Mae y neill peth . Ae tydi

yn *ŵr* o bell ; ae titheu yn ynuyt . Yna y mae amherodres cristinobyl
vaŵr . Ac ny myn honno namyn y *gŵr* deŵraf ; canyt reit idi hi da . Ac ny
ellit dŵyn bŵyt y'r saŵl vilyoed yssyd yma . ac o achawb hynny y mae y
saŵl velineu' . A'r nos honno kymryt esmŵythter a wnaethant .

- 845 A thranoeth kyfodi y uynyd a wnaeth peredur . A *gŵiscaŵ*
ymdanaŵ ac ymdan y varch . y vynet y'r *tŵrneimeint* . Ac ef a welei
bebyll ym plith y pebylleu ereill teccaf o'r a welsei eiroet . A morŵyn
tec a welei yn ystynnu y phen trŵy ffenestyr ar y pebyll . Ac ny welsei
eiroet morŵyn tegach . Ac eurwisc o bali ymdanei . Ac edrych a wnaeth
850 ar y vorŵyn yn graff . a mynet y charyat yndaŵ yn vaŵr . Ac velly y bu
yn edrych ar y vorŵyn o'r bore hyt hanher dyd . Ac o hanher dyd hyny
oed pryt naŵn . Ac yna neur daroed y *tŵrneimeint* . A dyfot a oruc y lety
a thynnu a oruc y arueu y amdanaŵ | Ac erchi aryant y'r melinyd yn
echŵyn . A dic uu wreic y melinyd *ŵrth* peredur . Ac eissoes y melinyd a
855 rodes aryant yn echŵyn idaŵ . A thranoeth y *gŵnaeth* yr vn wed . ac a
wnathoed y dyd gynt . A'r nos [163] honno y doeth o'y lety . Ac y
kymerth aryant yn echŵyn y gan y melinyd . A'r trydyd dyd pan yttoed
yn yr vn lle yn edrych ar y vorŵyn . ef a glywei dyrnaŵt maŵr rŵg
yscŵyd a mynŵgyl a mynybyr bŵyall . A phan edrychaŵd traegefyn ar y
860 melinyd . Y melinyd a dywaŵt *ŵrthaŵ* . 'Gŵna y neyll peth' heb y
melinyd 'ae tydi a tynho dy penn ymdeith . Ae titheu a el y'r
tŵrneimeint' . A gowenu a wnaeth peredur ar y melinyd . A mynet y'r
tŵrneimeint . Ac a gyfarfu ac ef y dyd *hŵnnŵ* ; ef a'e byryaŵd oll y'r
llaŵr ŵynt . A chymeint ac a vyryaŵd . a anuones y *gŵyr* yn anrec y'r
865 amherodres . a'r meirch a'r arueu yn anrec y wreic y melinyd yr
ymaros am y haryant echŵyn . Dilin a oruc peredur y *tŵrneimeint* hyny
vyryaŵd paŵb y'r llaŵr . Ac a vyryŵys ef y'r llaŵr . anuon y *gŵyr* a oruc
y garchar yr amherodres . A'r meirch a'r arueu y wreic y melinyd yr
ymaros am yr aryant echŵyn .
- 870 Yr amherodres a anuones at varchaŵc y velin . y erchi idaŵ dyfot
y ymwelet a hi . A ffallu a wnaeth y'r gennat gyntaf . A'r eil a aeth
attaŵ . A hitheu y trydyd weith a anuones cant marchaŵc y erchi idaŵ
dyuot y ymwelet a hi . Ac ony delhei o'e vod . erchi udunt y dŵyn o'e
anuod . Ac ŵynt a doethant attaŵ ac a dywedassant eu kenhadŵri *ŵrth* yr
875 amherodres . Ynteu a wharyaŵd ac ŵynt yn da . ef a baraŵd eu rŵyamaŵ
rŵy[164]mat iŵrch . Ac eu bŵrŵ yg claŵd y velin . A'r amherodres a
ofynnaŵd kyghor y ŵr doeth oed yn y chyghor . A *hŵnnŵ* a dywaŵt *ŵrthi*
; 'mi a af attaŵ ar dy gennat' . A dyfot at peredur a chyfarch *gŵell* idaŵ .
Ac erchi idaŵ yr mŵyn y orderch dyfot y ymwelet a'r amherodres . Ac
880 ynteu a deuth ef a'r melinyd . Ac yn y gyfeir gyntaf y deuth y'r pebyll

eisted a wnaeth . A hitheu a deuth ar y neill lað . A byr ymdidan a uu y
 rygthunt . A chymryt canhat a wnaeth peredur . A mynet o'e lety .
 Tranoeth ef a aeth y ymwelet a hi . A phan deuth y'r pebyll . nyt oed
 gyfeir ar y pebyll a uei waeth y gyweirdeb no'e gilyd . kany wydynt ðy
 885 py le yd eistedei ef . Eisted a oruc peredur ar neill lað yr amherodres .
 Ac ymdidan a wnaeth yn garedic . Pan yttoedynt uelly . ðynt a welynt
 yn dyfot y myðn gðr du a gorflðch eur yn y lað yn llaðn o win . A
 dygðydað a oruc ar pen y lin ger bron yr amherodres . Ac erchi idi nas
 rodei onyt y'r neb a delei y ymwan ac efo ymdanei . A hitheu a edrychaðd
 890 ar peredur . 'Arglðydes' heb ef ; 'moes imi y gorulðch' . Ac yfet y gwin
 a wnaeth . A rodi y gorflðch y wreic y melinyd . A phan yttoedynt uelly
 ; nachaf ðr du oed uðy no'r llall . Ac ewin pryf yn y lað ar weith
 gorflðch a'e loneit o win . A'e rodi y'r amherodres . Ac erchi idi nas
 rodei onyt y'r neb a ymwanei ac ef . 'Arglðydes' heb y peredur 'moes
 895 imi' . A'e rodi y peredur . a [165] wnaeth hi . Ac ywet y gwin a oruc
 peredur . A rodi y gorflðch y wreic y melinyd . Pan yttoedynt uelly .
 nachaf gðr pengrych coch a oed uðy noc vn o'r gðyr ereill . A gorflðch
 o vaen crissant yn y lað a'e loneit o win yndað . A gostðg ar pen y lin
 a'e rodi yn llað yr amherodres . Ac erchi idi nas rodei onyt y'r neb a
 900 ymwanei ac efo ymdanei . A'e rodi a wnaeth hitheu y peredur . Ac
 ynteu a'e hanuones y wreic y melinyd . Y nos honno mynet y letty .

A thrannoeth gðiscað ymdanað ac am y varch . A dyfot y'r
 weirglaðd . A llad y trywyr a oruc peredur . Ac yna y deuth y'r pebyll . A
 hitheu a dywaðt ðrthað . 'Peredur tec coffa y gret a rodeist ti imi pan
 905 rodeis i itti y maen pan ledeist ti yr adanc' . 'Arglðydes' heb ynteu 'gðir
 a dyweddy . A minheu a'e coffaaf' . Ac y gðledychðys peredur gyt a'r
 amherodres pedeir blyned ar dec megys y dyweit yr ystorya .

Arthur a oed ygkaer llion ar ðysc priflyys idað . Ac yglhanaðl llaðr y
 910 neuad yd oed petwar gðyr yn eisted ar len o bali . Owein vab
 vryen . A gwalchmei vab gðyar . A hywel vab emyr llydað . A pheredur
 baladyr hir . Ac ar hynny ðynt a welynt yn dyfot ymyðn morðyn
 bengrych du ar gefyn mul melyn . A charreieu anuanaðl yn y llað yn
 gyrru y mul . A phryt anuanaðl agharueid arnei . Duach oed y hðyneb
 a'e dðylað ; no'r hayarn [166] duhaf a darffei y bygu . Ac nyt y llið
 915 hacraf ; namyn y llun . Grudyeu aruchel ac ðyneb kyccir y waeret . A
 thrðyn byr ffroenuoll . A'r neill lygat yn vrithlas tra theryll . A'r llall yn
 du val y muchyd ygheuhynt y phen . Danhed hiryon melynynon melynach
 no blodeu y banadyl . A'e chroth yn kychwynnu o gledyr y dðy vron yn
 uch no'e helgeth . Ascðrn y chefyn oed ar weith bagyl . Y dðy glun
 920 oed yn llydan yscyrnic . Ac yn vein oll o hynny y waeret . eithyr y traet

a'r glinyeu oed vras | Kyfarch góell y arthur a'e teulu oll eithyr y
 peredur a oruc . Ac órth peredur y dywaót geireu dic anhygar . 'Peredur
 ny chyfarchaf i well itti . kanys dylyy . Dall uu y tyghetuen pan rodes itti
 daón a chlot | Pan doethost y lys y brenhin cloff a phan weleist yno y
 925 maccóy yn dón y góayó llifeit . Ac o vlaen y góayó dafyn o waet . A
 hónnó yn redec yn rayadyr hyt yn dón y maccóy . Ac enryfedodeu
 ereill heuyt a weleist yno . Ac ny ofynneisti eu hystyr nac eu hachaós .
 A pheu as gofynnud . iechyt a gaffei y brenhin . A'e gyfoeth yn hedóch .
 A bellach bróydreu ac ymladeu a cholli marchogyon . Ac adaó góraged
 930 yn wedó . A rianed yn diossymdeith a hynny oll o'th achaós ti' .

Ac yna y dywaót hi órth arthur . 'gan dy ganhat arglóyd pell yó
 vy llety odyma nyt amgen ygkastell syberó . ny ónn a glyweist yórthaó .
 [167] Ac yn hónnó y mae whech marchaó a thrugeint a phym cant o
 varchogyon vrdaó . A'r wreic vóyhaf a gar pob vn gyt ac ef . A phóy
 935 bynhac a vynho ennill clot o arueu ac o ymwan ac o ymlad ef a'e keiff
 yno os dirper . A vynnei hagen arbenhicróyd clot ac etmyc . gón y lle y
 kaffei . kastell yssyd ar uynyd amló . Ac yn hónnó y mae moróyn . Ac
 yn y gyfeistydyadó yd yttys . A phóy bynhac a allei y rydhau ; pen clot y
 byt a gaffei' . Ac ar hynny kychwynu ymdeith a oruc . Heb y
 940 góalchmei . 'myn vyc | cret ny chysgaf hun lonyd nes góybot a allóyf
 ellóg y voróyn' . A llaóer o teulu arthur a gyt tun|naó ac ef . Amgen
 hagen y dywaót peredur . 'Myn vyc cret ny chyscaf hun lonyd nes
 góybot chwedyl ac ystyr y góayó y dywaót y voróyn du ymdanaó' .

A phan yttoed paó yn ymgyweiraó . nachaf uarchaó yn dyfot y'r
 945 porth a meint miló a'e angerd yndaó yn gyweir o varch ac arueu . Ac a
 deuei racdaó ac a gyfarchei well y arthur a'e teulu oll eithyr y
 walchmei . Ac ar yscóyd y marchaó yd oed taryan eurgróydry . A
 thraóst o lassar glas yndi . Ac vn llió a hynny yd oed y arueu oll . Ac ef
 a dywaót órth walchmei . 'Ti a ledeist vy arglóyd o'th tóyll a'th vrat . A
 950 hynny mi a'e profaf arnat' . kyfodi a wnaeth góalchmei y vynyd . 'llyma'
 heb ef 'vyc góystyl y'th erbyn ae yma ae yn y lle y mynhych nat óyf na
 thóylló na bradó' . 'kerbron y brenhin yssyd arnafi [168] y mynhaf
 bot y gyfranc y rofi a thi' . 'yn llawen' heb y góalchmei 'dos ragot . mi
 y'th ol' . Racdaó yd aeth y marchaó . Ac ymgyweiraó a wnaeth
 955 góalchmei . A llawer o arueu a gynigóyt idaó . Ac ny mynnaó onyt y rei
 ehun . Góiscaó a wnaeth góalchmei a pheredur ymdanunt ac y
 kerdassant yn y ol o achaós eu ketymdeithas a meint yd ymgerynt . Ac
 nyt ymgynhalysant ygyt ; namyn pob vn yn y gyfeir .

Góalchmei yn ieuencit y dyd a deuth y dyffryn . Ac yn y dyffryn y
 960 góelei kaer a llys uaó o uyón y gaer . A thyreu aruchelualch yn y

chylchyn . Ac ef a welei varchaŵc yn dyfot y'r porth allan y hela y ar
 palfrei gloyŵdu ffroenuoll ymdeithic . A rygig wastatualch escutlym
 ditramgŵyd ganthaŵ . Sef oed hŵnnŵ ; y gŵr bieoed y llys . kyfarch
 gŵell a wnaeth gŵalchmei idaŵ . 'Duŵ a rotho da it vnben . A phan doy
 965 titheu' . 'pan deuaf' heb ef 'o lys arthur' . 'Ae gŵr y arthur ŵyt ti' . 'Je
 myn vvg cret' heb y gŵalchmei . 'Mi a ŵnn gyghor da it' heb y marchaŵc
 ; 'blin a lludedic y'th welaf . dos y'r llys ac yno y trigy heno . os da
 genhyt' . 'Da arglŵyd a duŵ a talho it' . 'hŵde vodrŵy yn arŵyd at y
 porthaŵr . A dos ragot y'r tŵr racco . A chwaer yssyd iminheu yno' .

970 Ac y'r porth y doeth gŵalchmei . a dangos y vodrŵy a wnaeth . A
 chyrchu y tŵr . A ffan daŵ yd oed ffyryftan maŵr yn llosci . A fflam oleu
 uchel difŵc o honaŵ . A morŵyn uaŵrhydic telediŵ yn eisted ymyŵn
 kadeir ŵrth y tan . A'r vorŵyn a uu lawen ŵrthaŵ a'e raessaŵu a oruc a
 chychwynu yn y [169] erbyn . Ac ynteu a aeth y eisted ar neill laŵ y
 975 vorŵyn . eu kinyaŵ a gymersant .

A gŵedy eu kinyaŵ . dala ar ymdidan hygar a orugant . A phan
 yttoedynt uelly . llyma yn dyfot ymyŵn attunt gŵr gŵynllŵyt telediŵ .
 'Oi a achenoges butein' heb ef . 'bei gŵyputi iaŵnet itt chware ac eisted
 980 gyt a'r gŵr hŵnnŵ . nyt eistedut ac ny chwaryut' . A thynnu y pen allan
 ac ymdeith . 'A vnben' heb y vorŵyn 'pei gŵnelut vvg kyghor i rac
 ofyn bot pyt gan y gŵr it . ti a gayut y drŵs' heb hi . Gŵalchmei a
 gyfodes y vynydd . A phan daŵ tu a'r drŵs . yd oed y gŵr ar y trugeinuett
 yn llaŵn aruaŵc yn kyrchu y tŵr y vynydd . Sef a oruc gŵalchmei ; a
 chlaŵr gŵydbŵyll diffryt rac dyfot neb y vynydd hyny doeth y gŵr o hela
 985 . Ar hynny llyma y iarll yn dyuot . 'Beth yŵ hyn' heb ef . 'peth hagyr'
 heb y gŵr gŵynllŵyt . 'bot yr achenoges racco educher yn eisted ac yn
 yfet gyt a'r gŵr a ladaŵd aŵch tat . A gŵalchmei vab gŵyar yŵ ef' .
 'Peidŵch bellach' heb yr iarll 'miui a af y myŵn' . Y iarll a uu lawen ŵrth
 walchmei . 'A vnben' heb ef . 'kam oed it dyfot y an llys o gŵyput lad an
 990 tat o honot . kyny allom ni y dial ; duŵ a'e dial arnat' . 'Eneit' heb y
 gŵalchmei ; 'llyna mal y mae am hynny . Nac y adef llad aŵch tat chwi
 nac y diwat ny deuthum i . Neges yd ŵyf i yn mynet y arthur . ac imihun .
 Archafi oet ulŵydydd hagen hyny delhŵyf o'm neges . Ac yna ar vvg cret
 vyn | dyfot y'r llys hon y wneuthur vn [170] o'r deu ae adef ae wadu' .
 995 Yr oet a gafas yn llawen . Ac yno y bu y nos honno .

Tranoeth kychwyn ymdeith a oruc . Ac ny dyweit yr istorya am
 walchmei hŵy no hynny . yn y gyfeir honno .

A pheredur a gerdaŵd racdaŵ . crŵydraŵ yr ynys a wnaeth peredur y
 geissaŵ chwedlydyaeth y ŵrth y vorŵyn du . Ac nys kauas . Ac ef a
 1000 deuth y tir nys atwaenat myŵn dyffryn auon . Ac val yd yttoed yn

kerdet y dyffryn . ef a welei varcha**ŵc** yn dyfot yn y erbyn ac ar**ŵy**d
 bala**ŵc** arna**ŵ** . Ac erchi y vendith a wnaeth . ‘Och a truan’ heb ef ‘ny
 dylyy gaffel bendith ; ac ny ffr**ŵy**tha it . am wisca**ŵ** arueu dyd kyfuch
 a’r dyd hedi**ŵ**’ . ‘A phy dyd y**ŵ** hedi**ŵ**’ heb y peredur . ‘Du**ŵ** g**ŵ**ener
 1005 croclith y**ŵ** hedi**ŵ**’ . ‘Na cheryd vi ny wyd**ŵn** hynny . Bl**ŵy**dyn y hedi**ŵ**y
 kychwynneis o’**m** g**ŵ**lat’ . Ac yna disgynnu y’r lla**ŵ**r a wnaeth ac
 arwein y varch yn y la**ŵ** . A thalym o’r prifford a gerda**ŵd** hyny gyfaruu
 ochelfford ac ef . Ac y’r ochelford tr**ŵy** y coet . A’r parth arall y’r coet .
 ef a welei gaer uoel ac ar**ŵy**d kyfanhed a welei o’r gaer . A pharth a’r
 1010 gaer y doeth . Ac ar borth y gaer y kyfaruu ac ef y bala**ŵc** a gyfaruuassei
 ac ef kyn no hynny . Ac erchi y vendith a oruc . ‘bendith du**ŵ**it’ heb ef
 . ‘A ia**ŵ**nach y**ŵ** kerdet uelly . A chyt a mi y bydy heno’ . A thrigya**ŵ** a
 wnaeth peredur y nos honno .

Trannoeth arofun a wnaeth peredur ymdeith . ‘nyt dyd hedi**ŵ**y
 1015 neb y gerdet . ti a udy gyt | a mi hedi**ŵ** ac avory a threnhyd . A mi a
 dywedaf it y kyfar**ŵy**dyt [171] goreu a all**ŵy**f am yr hynn yd **ŵy**t yn y
 geissa**ŵ**’ . A’r petweryd dyd arofun a wnaeth peredur y ymdeith . Ac
 adol**ŵn** y’r bala**ŵc** dywedut kyfar**ŵy**dyt y **ŵr**th gaer yr enryfedodeu .
 ‘Kymeint a **ŵy**p**ŵy**fi . mi a’e dywedaf it . Dos dros y mynyd racco . A
 1020 thu h**ŵ**nt y’r mynyd y mae afon . Ac yn dyffryn yr auon y mae llys
 brenhin . Ac yno y bu y brenhin y pasc . Ac or keffy yn vn lle chwedyl
 y | **ŵr**th gaer yr enryfedodeu . ti a’e keffy yno’ .

Ac yna y kerda**ŵd** racda**ŵ** ac y deuth y dyffryn yr afon . Ac y
 kyfaruu ac ef nifer o wyr yn mynet y hela . Ac ef a welei ymplith y
 1025 nifer g**ŵr** urdedic . A chyfarch g**ŵ**ell ida**ŵ** a oruc peredur . ‘Dewis ti
 vnben ae ti a elych y’r llys . Ae titheu dyuot gyt a mi y hela . Ae
 minheu a yrraf vn o’r teulu y’th orchymyn y verch yssyd im yno . y
 gymryt b**ŵy**t a llyn hyny del**ŵy**f o hela . Ac or byd dy negesseu hyt y
 gall**ŵy**fi eu kaffel ; ti a’e keffy yn lla**ŵ**en’ . A gyrru a wnaeth y brenhin
 1030 g**ŵ**as byrr velyn gyt ac ef . A phan doethant y’r llys . yd oed yr
 vnbennes g**ŵ**edy kyfodi ac yn mynet y ymolchi . Ac y deuth peredur
 racda**ŵ** . Ac y graessa**ŵa****ŵd** hi peredur yn llawen . A’e gynn**ŵ**ys ar y
 neilla**ŵ** . A chymryt eu kinya**ŵ** a orugant . A pheth bynhac a dywettei
 Peredur **ŵr**thi ; wherthin a wnai hitheu yn vchel . mal y clywei pa**ŵ**b o’r
 1035 llys . Ac yna y dywa**ŵd** y g**ŵ**as byrruelyn **ŵr**th yr vn[172]bennes . ‘Myn
 v**ŵy**g cret’ heb ef ‘or bu **ŵr** itti eiroet y macc**ŵy** h**ŵ**nn a uu . ac ony bu **ŵr**
 it ; mae dy vryt a’th ued**ŵl** arna**ŵ**’ . A’r g**ŵ**as byrr|velyn a aeth parth a’r
 brenhin . Ac ynteu a dywa**ŵt** . Mae tebyccaf oed ganta**ŵ** vot y macc**ŵy** a
 gyfarfu ac ef yn **ŵr** o’e verch . ‘Ac onyt g**ŵr** mi a tebygaf y byd g**ŵr** idi
 1040 yn y lle onyt ymogely racda**ŵ**’ . ‘Mae dy gyghor ti was’ . ‘Kyghor y**ŵ**

genhyf ellóg deŵrwy am y pen a'e dala hyny ɔyppych diheurɔyd am
 hynny' . Ac ynteu a ellygaɔd gɔyr am pen peredur o'e dala ac y doddi y
 myn geol . A'r vorɔyn a doeth yn erbyn y that ac ofynnaɔd idaɔ py
 1045 achaɔs y parassei karcharu y maccɔy o lys arthur . 'Dioer' heb ynteu
 'ny byd ryd heno nac auory na threnhyd ac ny daɔ o'r lle y mae' . Ny
 ɔrthneuaɔd hi ar y brenhin yr hyn a dywaɔt . A dyfot at y maccɔy . 'Ae
 anigryf genhyt ti dy vot yma' . 'Ny'm toreï kyny bydɔn' . 'Ny byd
 gɔaeth dy wely a'th ansaɔd noget vn y brenhin . A'r kerdeu goreu yn y
 1050 llys ti a'e keffy ɔrth dy gyghor . A pheï didanach genhyt titheu no
 chynt vot vyg gɔely i yma y ymdidan a thi ti a'e kaffut yn llawen' .
 'Ny ɔrthneuafi hynny' . ef a uu yg | karchar y nos honno . a'r vorɔyn a
 gywiraɔd yr hyn a adaɔssei idaɔ .

A thranoeth y clywei peredur kynhɔrɔf yn y dinas . 'Oï a vorɔyn
 tec py gynhɔrɔf yɔ hɔnn' . 'llu y brenhin a'e allu yssyd yn dyfot y'r
 1055 dinas hɔn hediɔ' . 'Peth a uynant [173] ɔy uelly' . 'Jarll yssyd yn agos
 yma a dɔy iarllaeth idaɔ . A chyn gadarnet yɔ a brenhin . A chyfranc a
 uyd yrydunt hediɔ' . 'Adolɔyn yɔ genhyfi' heb y peredur 'itti peri imi
 varch ac arueu y vynet y discɔyl ar y gyfranc . Ar vygkywirdeb inheu
 dyfot y'm karchar trachefyn' . 'Yn llaɔen' heb hitheu . 'mi a baraf itt
 1060 varch ac arueu' . A hi a rodes idaɔ march ac arueu a chɔnsallt purgoch
 ar uchaf y arueu a tharyan velen ar y yscɔyd . A dyfot y'r gyfranc a
 wnaeth . ac a gyfarfu ac ef o wyr yr iarll y dyd hɔnnɔ . ef a'e byryaɔd
 oll y'r llaɔr . ac ef a doeth drachefyn o'e garchar . Gofyn chwedleu a
 wnaeth hi y peredur . ac ny dywaɔt ef vn geir ɔrthi . A hitheu a aeth y
 1065 ofyn chwedleu o'e that . A gofyn a wnaeth pɔy a uuassei oreu o'e teulu
 . Ynteu a dywaɔt nas atwaenat . gɔr oed a chɔnsallt coch ar uchaf y
 arueu a tharyan velen ar y yscɔyd . A gowenu a wnaeth hitheu . a
 dyfot yn yd oed peredur . A da uu y barch y nos honno . A thri dieu ar
 untu y lladaɔd peredur wyr yr iarll . A chyn caffel o neb ɔybot pɔy vei y
 1070 doei o'e garchar trachefyn . A'r petweryd dyd y lladaɔd peredur yr iarll
 ehun . A dyfot a oruc y vorɔyn yn erbyn y that . A gofyn chwedleu idaɔ
 . 'chwedleu da' heb y brenhin . 'llad yr iarll' heb ef . 'A minheu bieu y
 dɔy iarllaeth' . 'A ɔdosti arglɔyd pɔy a'e lladaɔd' . 'Gɔn' heb y brenhin .
 'marchaɔc y cɔnsallt coch a'r taryan velen . a'e lladaɔd' . 'Arglɔyd'
 1075 heb hi 'miui [174] a ɔn pɔy yɔ hɔnnɔ' . 'Yr duɔ' heb yr ynteu 'pɔy yɔ
 ef' . 'Arglɔyd · y marchaɔc yssyd yg karchar genhyt yɔ hɔnnɔ' . Ynteu
 a doeth yn yd oed peredur . A chyfarch gɔell idaɔ a wnaeth . A dywedut
 idaɔ y gɔassanaeth a wnathoed . y talei idaɔ megys y mynhei ehun . A
 phan aethpɔyt y uɔytta . Peredur a dodet ar neill laɔ y brenhin . a'r
 1080 vorɔyn y parth arall y peredur .

A góedy bóyt ; y brenhin a dywaót órth peredur . ‘Mi a rodaf it
 vym merch yn briaót . A hanher vym brenhinyaeth genthi . A’r dóy
 iarllaeth a rodaf it y’th gyfarós’ . ‘Arglód yd · duó a talho it . ny deuthum
 i yma y wreicca’ . ‘Beth a geissy titheu vnben’ . ‘keissaó chwedleu yd
 1085 óyf y órth gaer yr enryfedodeu’ . ‘Móy yó medól yr vnben noc yd ym ni
 yn y geissaó’ heb y voróyn . ‘chwedleu y órth y gaer ti a’e keffy . A
 chanhebrygyeit arnat tróy gyfoeth vyn tat a threul digaón . A thydi
 vnben yó y góy móyhaf a garafi’ . Ac yna y dywaót órthaó . ‘Dos dros y
 1090 mynyd racco . A thi a wely lyn a chaer o vyón y llyn . A honno a elwir
 kaer yr enryfedodeu . Ac ny ódam ni dim o’e enryfedodeu hi . eithyr y
 galó velly’ .

A dyfot a oruc peredur parth a’r gaer | A phorth y gaer oed agoret . A
 phan doeth tu a’r neuad ; y drós oed agoret . Ac val y deuth ymyón :
 góydbóyll a welei yn y neuad . A phop vn o’r dóy werin yn góare yn
 1095 erbyn y gilyd . A’r vn y bydei borth ef idi ; a gollei y góare . [175] A’r
 llall a dodei aór yn vn wed a phe bydynt góyr . Sef a wnaeth ynteu
 digyaó a chymryt y werin yn y arfet a thaflu y claór y’r llyn . A phan
 yttoed uelly . nachaf y voróyn du yn dyuot ymyón . ‘Ny bo graessaó
 duó órthyt . Mynychach it wneuthur dróc no da’ . ‘Beth a holy di imi y
 1100 voróyn du’ . ‘Colledu ohonot yr amherodres o’e chlaór ac ny mynnei
 hynny yr y amherodraeth’ . ‘Oed wed y keffit y claór’ . ‘oed bei elhut y
 gaer ysbidinongyl . Mae yno ór du yn diffeithaó llawer o gyfoeth yr
 amherodres ; A llad honno . ti a gaffut y claór . Ac ot ey ti yno ; ny doy
 yn vyó trachefyn’ . ‘A vydy ti gyfarwyd imi yno’ . ‘Mi a uanagaf fford
 1105 it yno’ .

Ef a deuth hyt yg kaer ysbidinongyl . Ac a ymladaó a’r góy du . A’r
 góy du a erchis naó y peredur . ‘Mi a rodaf naó it · par vot y claór yn y
 lle yd oed pan deuthum i y’r neuad’ . Ac yna y doeth y voróyn du .
 ‘emelltith duó it yn lle dy lafur am adaó yr ormes yn uyó yssyd yn
 1110 diffeithaó kyfoeth yr amherodres’ . ‘Mi a edeweis’ heb y peredur ‘idaóy
 eneit yr peri y claór’ . ‘Nyt yttió y claór y lle kyntaf y keueist ; dos
 trachefyn a llad ef’ . Mynet a oruc peredur . a llad y góy .

A phan doeth y’r llys yd oed y voróyn du yn y llys . ‘Ha voróyn’
 heb y peredur . ‘Mae yr amherodres’ . ‘Yrof i a duó nys góely ti hi yn aór
 1115 . ony bei lad gormes yssyd [176] yn y fforest racco ohonot’ . ‘Py ryó
 ormes yó’ ; ‘karó yssyd yno . A chyebroydet yó a’r edeinyaó kyntaf .
 Ac vn corn yssyd yn y tal . kyhyt a phaladyr góayó . a chyn vlaenllymet
 yó a’r dim blaenllymaf . A phori a wna bric y coet ac a uo o wellt yn y
 fforest . A llad pob aneuail a wna o’r a gaffo yndi . Ac ar nys llado ;
 1120 maró vydant o newyn . Ac ys góaeth no hynny dyuot a wna beunoeth

ac yfet y byscotlyn yn y diaót a gadu y pyscaót yn noeth a meiró vyd eu
can mōyhaf kyn dyfot dōfyr idi trachefyn' . 'A vorōyn' heb y peredur
'a do y ti y dangos imi yr aneuail hōnnō' . 'Nac af · ny lafassōys dyn
vynet y'r forest ys blōdydyn . Mae yna colōyn y'r arglōydes a hōnnō a
1125 gyfyt y karō ac a daō attat ac ef . A'r karō a'th gyrch ti' .

Y colōyn a aeth yn gyfarwyd y peredur . Ac a gyfodes y karō . Ac a
doeth parth a'r lle yd oed peredur ac ef . A'r karō a gyrchad peredur ac
ynteu a ellygōys y ohen heibyaō . Ac a trewis y pen y arnaō a chledyf . A
phan yttoed yn edrych ar pen y karō . ef a welei varchoges yn dyfot attaō
1130 ac yn kymryt y colōyn yn llawes y chapan . A'r pen yrygthi a choryf | A'r
torch rudeur oed am y vynōgyl . 'A vnben' heb hi 'ansyberō y
gōnaethost . llad y tlōs teccaf oed y'm kyfoeth' . 'Arch a uu arnaf am
hynny . Ac a oed wed y gallōn i kaffel dy gerenhyd ti' . 'oed · dos y vron
y mynyd . Ac yno ti a wely [177] lōyn . Ac ymon y llōyn y mae llech .
1135 Ac erchi gōr y ymwan teir gōeith . ti a gaffut vyg kerenhyd' .

Peredur a gerdaōd racdaō . Ac a deuth y emyl y llōyn . Ac a
erchis gōr y ymwan . Ac ef a gyfodes gōr du ydan y llech . A march
yscyrnic ydanaō . ac arueu rytlyt maōr ymdanaō . ac ymdan y varch . Ac
ymwan a wnaethant . Ac val y byryei peredur y gōr du y'r llaōr . Y
1140 neidei ynteu yn y gyfrōy trachefyn . A disgyntu a oruc peredur a
thynnu cledyf . Ac yn hynny diffllanu a oruc y gōr du a march peredur
. ac a'e varch ehun gantaō hyt na welas yr eil olōc arnunt .

Ac ar hyt y mynyd kerdet a wnaeth peredur . A'r parth arall y'r
mynyd ef a welei gaer yn dyffryn auon . A pharth a'r gaer y doeth . Ac
1145 val y daō y'r gaer neuad a welei . A drōs y neuad yn agoret . Ac ymyōn
y doeth . Ac ef a welei ōr llōyt cloff yn eisted ar tal y neuad . A
gōalchmei yn eisted ar y neillaō . A march peredur a welei yn vn presseb
a march gōalchmei . A llawen uuant ōrth peredur . A mynet y eisted a
oruc y parth arall y'r gōr llōyt . Ac hyny vyd gōas melyn yn dyfot ar
pen y lin ger bron peredur . Ac erchi kerenhyd y peredur . 'Arglōyd'
1150 heb y gōas 'mi a deuthum yn rith y vorōyn du y lys arthur . A phan
vyryeist y claōr . A phan ledeist y gōr du o yspidinongyl . A phan
ledeist y karō . A phan uuost yn ymlad a'r gōr du o'r llech . A mi a
deuthum a'r pen yn waedlyt [178] ar y dyscyl . Ac a'r gōayō a oed y
1155 ffrōt waet o'r pen hyt y dōrn ar hyt y gōayō . A'th gefynderō biowed y
pen . A gōidonot kaer loyō a'e lladassei . Ac ōynt a gloffassant dy
ewythyr . a'th gefynderō ōyf inheu . A darogan yō itti dial hynny' . A
chyghor uu gan peredur a gōalchmei anuon at arthur a'e teulu y erchi
1160 idaō dyfot am pen y gōidonot . A dechreu ymlad a wnaethant a'r
gōidonot a llad gōr y arthur ger bron peredur a wnaeth vn o'r gōidonot

1165 . A'e gŵahard a wnaeth peredur . A'r eilweith llad gŵr a wnaeth y
widon ger bron peredur . A'r eilweith y gŵahardaŵd peredur hi . A'r
tryded weith llad gŵr a wnaeth y widon ger bron peredur . A thynnu y
gledyf a wnaeth peredur a tharaŵ y widon ar vchaf yr helym hyny hyllt
yr helym a'r arueu oll a'r pen yn deu hanher | A doddi llef a wnaeth ac
erchi y'r gŵidonot ereill ffo . A dywedut pan yŵ peredur oed . gŵr a
uassei yn dyscu marchogaeth gyt ac ŵy yd oed tyghet eu llad . Ac yna
y trewis arthur a'e teulu gan y gŵidonot . Ac y llas gŵidonot kaer loyŵ
oll . Ac velly y treythir o gaer yr ynryfedodeu .